

Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh

Cyflog: £66,570 - £73,008 y flwyddyn (Gradd 15)

Math o gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Mae CBAC yn falch o fod yn croesawu ceisiadau am rôl Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh gyda'r Tîm CGTh a Sgiliau.

Yr her

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

Y rôl

Bydd yr unigolyn hwn yn arwain ac yn cynnig y weledigaeth ar gyfer ein cymwysterau Dysgu Seiliedig ar Waith a Galwedigaethol a Thechnegol. Byddan nhw'n gyfrifol am reoli swyddogion cymwysterau a sicrhau bod gweithgaredd datblygu a gweithredu cymwysterau o fewn y cwmpas, sy'n digwydd yn amserol ac o safon. Byddan nhw'n cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion yn ymwneud â'r cymwysterau i amrywiol gynulleidfaedd proffesiynol.

Amdanoch chi

Bydd gennych wybodaeth fanwl am bolisi addysg perthnasol a phrofiad o gyflwyno / asesu cymwysterau dysgu seiliedig ar waith a galwedigaethol a thechnegol. Bydd gennych sgiliau rhyngpersonol rhagorol a'r gallu i gydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod canlyniadau yn cael eu cyflawni i derfynau amser llym. Byddwch yn drefnus ac yn rhagweithiol wrth eich gwaith, ac yn gallu gweithio'n fanwl gywir a thalu sylw i'r manylion.

Y contract

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisiau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Mae'r swydd hon yn un hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar ddewis personol ac anghenion busnes. Gwahoddir ceisiadau felly gan unigolion ar draws y DU, ond bydd gofyn gweithio'n rheolaidd o'n swyddfeydd yng Nghaerdydd gyda'r rôl hon. Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ond gwerthfawrogir y parodrwydd i ddysgu'r iaith bob amser.

I gael gwybod mwy am y rôl, neu am weithio gyda ni, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk). Byddant yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau.

Ewch i'n [gwefan](#) i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.

Dyddiad cau: 23:59, Dydd Llun 04 Tachwedd 2024

Disgwylir cynnal cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Tachwedd 2024.

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh
Adran:	Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol a Sgiliau
Isadran:	Cymwysterau ac Asesu
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol a Sgiliau
Gradd:	15
Lleoliad:	Swyddfeydd CBAC, Rhodfa'r Gorllewin / Hybrid
Prif bwrpas y Swydd:	

Bydd y Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh yn arwain ac yn cynnig gweledigaeth ar gyfer ein cymwysterau Dysgu Seiliedig ar Waith a Galwedigaethol a Thechnegol. Bydd hefyd yn gweithredu fel rheolwr llinell ar reolwyr/swyddogion cymwysterau sy'n darparu ein cymwysterau Dysgu Seiliedig ar Waith a Galwedigaethol a Thechnegol. Y rôl hon sy'n gyfrifol am sicrhau cyflwyno gweithgaredd datblygu a gweithredu ar gyfer cymwysterau o fewn y cwmpas, sy'n amserol ac o safon.

Mae'r Pennaeth Cymwysterau Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh yn rheoli portffolio o gymwysterau ar lefel weithredol yn y tîm Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol a Sgiliau, ac yn gyfrifol am y canlynol:

- darparu, asesu, sicrhau ansawdd allanol a dyfarnu, a chynnal y cymwysterau
- darpariaeth Dysgu Proffesiynol
- cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion yn ymwneud â'r cymwysterau i amrywiol gynulleidfaedd proffesiynol
- rheoli contractau lle mae CBAC yn darparu cymwysterau a/neu wasanaethau asesu eraill ar ran corff arall

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Rheoli'r tîm

- Rhoi arweiniad i'r tîm er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn dilyn prosesau y cytunwyd arnynt ym mhob agwedd ar y gwaith, gyda phwyslais arbennig ar y defnydd effeithiol ac effeithlon o staff, arholwyr, cymedrolwyr, swyddogion sicrhau ansawdd ac unrhyw benodiadau ymgynghorol.
- Cefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth fasnachol CBAC, gan nodi a gweithredu ar y potensial ar gyfer datblygu'r farchnad a gwella darpariaeth CBAC yn y maes Dysgu Seiliedig ar Waith a Galwedigaethol a Thechnegol, gan dderbyn cyngor gan gydweithwyr lle bo'n berthnasol.
- Cynnal cyfarfodydd rheolaidd a chadw cofnod o'r drafodaeth â'r tîm, gan ymdrin ag eitemau sefydlog (e.e. briffio cyfathrebu mewnol, datblygiad cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol a sgiliau, marchnata a chyfathrebu (gan gynnwys y wefan), materion gweithredol, defnyddio gwasanaethau TG i 'weithio'n fwy craff') a blaenoriaethau penodol y tîm.
- Bod yn rheolwr llinell ar reolwyr/swyddogion cymwysterau yn y tîm gan gynnwys gosod amcanion, cyfrifoldebau rheolaeth llinell o ddydd i ddydd a chwblhau adolygiadau rheoli perfformiad blynyddol.

Rheoli darpariaeth cymwysterau penodol

- Sicrhau ymatebion amserol i ymholiadau ynghylch y cymwysterau.
- Cydweithio â Tîm Marchnata CBAC i ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata ar gyfer y cymwysterau, gan fod yn gyfrifol am ei llwyddiant a'i thwf.
- Hyrwyddo'r cymwysterau drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys ysgrifennu a sicrhau ansawdd y tudalennau perthnasol ar wefan CBAC.
- Cydweithio â'r Tîm Dysgu Proffesiynol i sicrhau bod amrywiaeth o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol ar gael i athrawon a phartion eraill â diddordeb.
- Cyfleu gwybodaeth i ganolfannau ynghylch cymwysterau, e.e. cylchlythyrau ysgrifenedig, deunyddiau cefnogi ac ati.
- Cynnig cyngor ac arweiniad i benaethiaid ysgolion, athrawon ac eraill ar ddatblygiadau yn y cymwysterau.
- Dan gyfarwyddyd y Tîm Arwain Gweithredol, gweithredu fel y Rheolwr Contractau ar gyfer contractau penodol lle mae CBAC yn darparu cymwysterau a/neu wasanaethau asesu eraill ar ran corff arall, gan sicrhau ymatebion clir ac amserol a pharhau i reoli perthnasoedd.

Rheoli'r Prosesau Asesu a Dyfarnu

- Sicrhau ansawdd cyffredinol ar draws holl agweddau'r gwaith o ddatblygu asesiadau ar gyfer cymwysterau penodol.
- Cydweithio â'r Tîm Penodedigion i sicrhau bod gan CBAC dimau addas o gymedrolwyr/swyddogion sicrhau ansawdd allanol ac arholwyr ar gael (yn ôl yr angen), cymryd cyfrifoldeb am recriwtio, penodi a hyfforddi penodedigion a sicrhau bod cyngor ac arweiniad priodol yn cael eu cynnig iddynt i gyflawni eu rolau'n effeithiol.
- Monitro, ar y cyd ag uwch Benodedigion, cywirdeb penderfyniadau sicrhau ansawdd allanol / cymedroli a rhoi graddoli priodol ar waith lle bo'n berthnasol ac yn angenrheidiol.
- Trefnu, gwasanaethu, cyngori a chyfeirio gweithdrefnau cynadleddau sicrhau ansawdd allanol/cymedroli, safoni a dyfarnu.
- Adrodd yn ôl ar y prosesau dyfarnu a chyflwyno argymhellion i'r Swyddog Cyfrifol ar ôl trafod â Chadeirydd y Cymhwyster.
- Sicrhau bod adroddiadau'n cael eu paratoi i ganolfannau ynghylch perfformiad mewn asesiadau mewnol.
- Sicrhau bod y wybodaeth angenrheidiol gan yr isadran weinyddol berthnasol i weinyddu'r broses farcio, sicrhau ansawdd allanol a chymedroli.
- Sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu mewn ymateb i adroddiadau craffu Rheoleiddwyr.

Llywio datblygiad parhaus cymwysterau dysgu seiliedig ar waith a llwybrau

- Darparu arweiniad rhagweithiol ac arloesol ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â chymwysterau dysgu seiliedig ar waith a galwedigaethol a thechnegol penodol.
- Coladu adborth gan ganolfannau ar y cymwysterau a gwneud argymhellion ar newidiadau mewn ymateb i faterion a nodwyd.
- Bod yn gyfrifol am agweddau allweddol ar y Broses Diwygio Manylebau, gan ddiweddarau dogfennau manylebau a deunyddiau cysylltiedig gan gynnwys y Canllawiau i Athrawon.
- Cyfrannu (lle bo'n berthnasol) at ddatblygu meini prawf cymeradwyo cymwysterau/amodau sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau a mynychu cyfarfodydd gyda Rheoleiddwyr os oes angen.

- Cynghori ar natur yr adnoddau addysgol sydd eu hangen i gefnogi addysgu a dysgu'r cymwysterau, a chydweithio ag eraill i ddatblygu adnoddau digidol. Cynnig arweiniad ac eglurhad i grwpiau o'r fath a monitro gwaith sy'n mynd rhagddo.

Cyfrifoldeb cyllidebol

- Rheoli cyllidebau perthnasol, a chyfrannu at weithgareddau cynllunio a monitro ariannol perthnasol.

Cyfrifoldebau Eraill

- Cynrychioli CBAC mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol, e.e. cyfarfodydd â'r rheoleiddwyr, gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid, seminarau, cynadleddau ac arddangosfeydd perthnasol.
- Deall a chydymffurfio â holl bolisiau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd o dro i dro sy'n ymestyn y tu hwnt i feysydd pwnc unigol, e.e. gweithgareddau i gefnogi mentrau datblygiadol.

Manyleb y Person

Teitl y Swydd:

Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Cymwysterau ac Asesu

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddefnyddol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

Sgiliau a Galluoedd

Hynod Ddymunol

- Sgiliau rheoli rhagorol ynghyd â'r gallu i gydbwysu amryfal amcanion a blaenoriaethau; gan gynllunio a dirprwyo'n effeithiol.
- Sgiliau arwain da, â'r gallu i annog cydberthnasau gweithio effeithiol ac ysgogi canolbwyntio cyffredin a chyson.
- Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda'r gallu i esbonio materion cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys drwy gyflwyniad.
- Llythrennedd cyfrifiadurol da gyda'r gallu i ddefnyddio Microsoft Office yn hyderus (yn benodol Word, Excel, PowerPoint, SharePoint a Teams)
- Unigolyn sy'n gallu cymell ei hun i fynd ati'n annibynnol i gynllunio a threfnu ei lwyth gwaith ei hun a llwyth gwaith y tîm i gwrdd â therfynau amser llym.
- Unigolyn sy'n gallu datrys problemau yn greadigol, sy'n gyffyrddus yn ei ddefnydd o fenter a hyblygrwydd i ddatrys problemau newydd neu gymhleth yn y gwaith.
- Lefel uchel o sgiliau rhyngpersonol a gwaith tîm, gyda'r gallu i ddatblygu rhwydweithiau proffesiynol.
- Y gallu i ddatblygu a chyflwyno polisiau, gweithdrefnau a/neu welliannau i brosesau.

Dymunol

- Profiad blaenorol o gynrychioli corff ar lefel broffesiynol.
- Gallu ariannol, gan gynnwys sgiliau rheoli cyllidebau.
- Sgiliau iaith Gymraeg.

Gwybodaeth

Hynod Ddymunol

Gwybodaeth fanwl am:

- ddysgu seiliedig ar waith neu gymwysterau galwedigaethol a thechnegol, er enghraifft cymwysterau seiliedig ar gredydau/cymhwysedd, Llwybrau 14 i 19, prentisiaethau.
- polisi addysg perthnasol i gymwysterau galwedigaethol a thechnegol yng Nghymru a/neu Lloegr.
- Technegau asesu a sicrhau ansawdd a sut i'w cymhwyso.

Dymunol

- Darpariaeth 14-19 mewn ysgolion a cholegau

Profiad

Hynod Ddymunol

- Profiad o gyflwyno a/neu asesu dysgu seiliedig ar waith a/neu gymwysterau galwedigaethol a thechnegol.
- Profiad o reoli projectau, gyda'r gallu i ddefnyddio'r sgiliau hyn i roi mentrau ar waith ar draws y corff.
- Profiad o Sicrhau Ansawdd Allanol (gwirio) neu Gymedroli.

Dymunol

- Rheolaeth cwricwlwm e.e. profiad fel Pennaeth Adran neu Gydlynnydd.
- Profiad mentora.
- Datblygu adnoddau.

Hyfforddiant / Cymwysterau

Hynod Ddymunol

- Cymhwyster gradd.
- TAR.
- Cymhwyster aseswr neu swyddog sicrhau ansawdd mewnol.

Telerau ac Amodau Gwasanaeth		Terms and Conditions of Service	
Teitl y Swydd / Job Title:	Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith a Gwasanaeth CGTh / Head of Work Based Learning and VTQ Delivery		
Cyflog / Salary:	£66,570 - £73,008 y flwyddyn / per annum	Gradd / Grade:	15
Gwyliau Blynnyddol / Annual Leave:	25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol / ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd. Pro rata. 25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays. Pro rata.		
Pensiwn / Pension:	Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol. The provision of the Local Government Superannuation Act apply.		
Math o Gytundeb:		Contract Type:	
<input checked="" type="checkbox"/> Llawn-amser / Full Time			
<input type="checkbox"/> Rhan-amser / Part Time		Nifer yr oriau yr wythnos	36.5
<input type="checkbox"/> Llawn-amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term		No of hrs per week	
<input type="checkbox"/> Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term		Diwedd y Tymor	
		End of Term	
		Diwedd y Tymor	/ /
		End of Term	
		Nifer yr oriau yr wythnos	
		No of hrs per week	
Dull Ymgeisio:		Method of Application:	
Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn 23:59; dydd Llun 04 Tachwedd 2024. Disgwylir cynnal cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 18 Tachwedd 2024.			
Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by 23:59 Monday 04 November 2024. Interviews are expected to take place in the week commencing 18 November 2024.			